

Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw

25 Chwefror 2009

Adroddiad yr Uned Forwrol

1. – Ffioedd a Thaliadau

- 1.1*** Cyflwynwyd y ffioedd a thaliadau ar gyfer blwyddyn ariannol 2009/10, i'r Swyddogion Statudol ac i Arweinydd Portffolio'r Gwasanaeth Dysgu Gydol Oes i'w cymeradwyo. Disgwylir y bydd yr Arweinydd Portffolio wedi cadarnhau'r ffioedd erbyn diwedd mis Chwefror.
- 1.2*** Gwelir copi o'r ffioedd a'r taliadau sy'n berthnasol i borthladdoedd Abermaw ac Aberdyfi yn atodol, a bydd yr Aelodau yn sylwi mai'r argymhelliad yw bod y taliadau i'r rhai sy'n byw yn barhaol yng Ngwynedd yn cynyddu o **3%**, tra fo'r cynnydd i'r rhai sy'n byw y tu allan i Wynedd yn cynyddu o **5%**. Bydd y gostyngiad mewn TAW o 17.5% i 15% yn sicrhau fod y gost net i'r client yn lleihau.
- 1.3*** Rhagwelir y bydd chwyddiant i bob harbwr yng Ngwynedd yn 2008/09 yn **2.67%**. Mae hyn yn cyfateb i gynnydd angenrheidiol o **£7,540** yn ein targed incwm am 2009/10 o'i gymharu gyda **£11,270** yn 2008/09. Bydd yr Aelodau'n ymwybodol nad ydym yn cyrraedd y targed incwm yn Abermaw ac fel a ddisgwylir o dan amgylchiadau o'r fath bydd angen cymryd mesurau eraill i sicrhau fod y gwariant cyffredinol a'r targedau incwm yn cael eu cyrraedd yn y blynyddoedd a ddaw.
- 1.4*** Nid yw'r ffioedd a'r taliadau sy'n ymwneud â lansio a chofrestru Cychod pŵer wedi cynyddu. Mae copi o'r ffioedd a'r taliadau i lansio a chofrestru cychod pŵer yn atodol.
- 1.5*** Y cynnydd cyffredinol yn y targed incwm i'r Uned Forwrol am 2009/10 yw £51,020 sy'n cynyddu targed incwm cyffredinol yr Uned Forwrol i £2,121,900.

2. - Cyllidebau

- 2.1** Mae sefyllfa ariannol yr harbwr yn Abermaw ac yn Aberdyfi ar 31^{ain} Ionawr yn atodol. Bydd yr Aelodau yn nodi fod y targed incwm sy'n ymwneud â harbwr Abermaw am 2008/09 yn £53,530, a bod cyfanswm yr incwm a grëwyd hyd at ddiwedd Ionawr 2009 wedi cyrraedd £37,186, diffyg o £16,344. Ni ragwelir y gellir creu swm sylweddol o incwm yn ystod Chwefror a Mawrth, ac felly tybir na fyddwn yn cyrraedd y targed incwm.
- 2.2** Hyd yma mae'r gwariant o dan nifer o benawdau yn fwy na'r gyllideb ac mae hyn yn achosi pryder fel yn y blynyddoedd a fu, ac fe ragwelir y bydd gwariant ychwanegol yn ystod misoedd Chwefror a Mawrth. Mae'r adroddiad ariannol ar ddiwedd Rhagfyr 2008 yn rhagweld y bydd gorwariant yn Abermaw efallai yn £8,000 erbyn diwedd mis Mawrth. Bydd y cyfanswm gwariant cyffredinol wedi ystyried y targed incwm.
- 2.3** O gofio am yr hinsawdd economaidd, fe fydd 2009/10 yn flwyddyn heriol i'r Uned Forwrol ac yn enwedig i harbwr Abermaw ac Aberdyfi. Pwysleisir y bydd angen goresgyn y gorwariant a'r diffyg mewn incwm yn enwedig o gofio am yr hinsawdd ariannol bresennol sy'n wynebu'r Awdurdod.

3.- Mordwyo

- 3.1** Mae'r 'Golau Polyn' wedi ei gynnal a'i gadw ac mae'r gost o dorri'r bolltiau oedd wedi rhydu a newid ac asio'r cantelau ar y gwaelod yn £600. Gwnaed y gwaith gan gontractwr lleol. Yn y tymor hir bydd yn rhaid paratoi cynlluniau er mwyn newid y 'Golau Polyn'. Bydd gwaith tebyg hefyd yn cael ei wneud ar y 'Golau Morglawdd' yn ystod diwedd Chwefror neu ddechrau Mawrth.
- 3.2** Mae'r holl gymhorthyddion mordwyo eraill wedi aros yn eu lle yn ystod misoedd cyntaf y gaeaf. Hyd yma, mae cost yr offer i roi gwasanaeth i'r Cymhorthion Mordwyo ac angorfeydd yr harbwr yn £1,360. Nid yw'r costau hyn yn cynnwys cost y Darparwr Gwasanaeth Angorfeydd sydd eisoes wedi ymgymryd â gwaith i dynnu'r angorfeydd sy'n berchen i'r Cyngor a bydd yn cael ei gomisiynu ym mis Mawrth i ail-leoli'r angorfeydd yn barod ar gyfer y tymor a ddaw.

4 Gwobrau Traeth

Am y tro cyntaf ers i Abermaw dderbyn Gwobr bwysig y Faner Las gyntaf un fe fethodd Ansawdd y Dŵr Ymdrochi i gyrraedd y safon canllaw yn 2008, sy'n cael ei brofi gan Asiantaeth yr Amgylchedd.

Fel a welir o'r wybodaeth sy'n atodol mae Ansawdd y Dŵr Ymdrochi yn Abermaw wedi cyrraedd y safon 'Canllaw' ers 1993. Mae hi'n bosibl fod y tywydd gwael a gafwyd yn ystod haf 2008 wedi cyfrannu at y dirywiad yn Ansawdd y Dŵr Ymdrochi.

O gofio fod Ansawdd y Dŵr Ymdrochi wedi cyrraedd y safon orfodol mae'r Uned Forwrol wedi cyflwyno cais am Wobr Traeth Tref Glan Môr ar gyfer Abermaw yn 2009. Disgwylir cael canlyniad y cais yma yn ystod mis Mawrth.

5.- Ad drefnu Gwasanaethau

5.1 Fel y gwŷr yr aelodau mae'r Uned Forwrol wedi bod yn rhan o'r Gwasanaeth Dysgu Gydol Oes am nifer o flynyddoedd ac roedd cefnogaeth y Pennaeth oedd bob amser ar gael yn allweddol i'r Uned.

5.2 Yn anffodus, gan fod yn rhaid i Gyngor Gwynedd wneud gostyngiadau sylweddol yn ei gyllideb bydd yr Uned Dysgu Gydol Oes yn cael ei ddatgymalu ar 31^{ain} Mawrth 2009 a bydd yr Uned Forwrol a Pharciau Gwledig yn dod yn rhan o'r Gwasanaeth Datblygu Economaidd o'r 1^{af} o Ebrill.

6. - Canlyniad Barn Cwsmer

6.1 Yn atodol, er gwybodaeth yr aelodau, gweler ddadansoddiad manwl o'r holiaduron ddosbarthwyd i holl glientiaid yr harbwr yn ystod 2008. Mae hi'n siomedig fod llai na 50% o'r holiaduron wedi eu dychwelyd. Bydd yr Uned Fowrol yn ystyried barn y clientiaid gan geisio gweithredu i wella'r meysydd hynny sydd angen sylw.